**Enillion Net Bioamrywiaeth Chwarel Llanddulas - Crynodeb Annhechnegol**

**Methodoleg a Chwmpas yr Adroddiad**

Comisiynwyd FPCR gan Adran Amgylcheddol CSFf i gyflawni asesiad Enillion Net Bioamrywiaeth yn Chwarel Llanddulas, Ffordd Abergele, Conwy, i ddarparu sgôr bioamrywiaeth gwaelodlin ar gyfer y Safle a chymharu hyn â chynigion. Ar hyn o bryd, nid oes dyluniad manwl ar gyfer datblygu'r safle yn y dyfodol, er mae gwaith wedi dechrau i raddfa debygol y llwyfannau datblygu ar gyfer pob ardal i'r de a'r gogledd o'r A547.

Mae'r asesiad wedi cael ei lywio gan arolwg o'r cynefinoedd sy'n bresennol ar y safle, gan gynnwys asesiadau cyflwr, a gyflawnwyd ar 27 Mai 2025.

**Gwaelodlin**

Roedd y safle wedi'i ddominyddu gan goetir llydanddail a phrysgwydd cymysg, gydag ardaloedd mawr o dir wedi'i ddatblygu. Roedd llyn mawr yn bresennol ar y safle ynghyd â phocedi o laswelltir niwtral arall, glaswelltir iseldir calchaidd, llystyfiant cynefinol/byrhoedlog a choed ar wasgar.

Nid oedd gwrychoedd yn bresennol ar y safle, er bod un llinell o goed wedi'i gofnodi, mewn cyflwr da.

Ni chofnodwyd unrhyw gyrsiau dŵr na ffosydd ar y safle.

**Cynigion**

Gan nad oes cynigion datblygu manwl yn bodoli ar gyfer y safle, mae gwerth bioamrywiaeth ar y safle ar ôl datblygu wedi cael ei gyfrifo gan ddefnyddio cymhareb 80:20 - amgylchedd adeiledig

(Tir a ddatblygwyd - Wyneb wedi'i Selio) i gyflwyno llwyni (i gyfrif am ddyluniad tirlunio).

Ardaloedd mawr o brysgwydd cymysg ynghyd â glaswelltir niwtral eraill a choetir llydanddail i'w cadw a'u gwella fel rhan o'r cynigion.

Mae'n debygol y bydd y llinell o goed yn cael eu cadw o fewn y datblygiad, er nad yw'n hysbys eto os fydd gwrychoedd newydd yn cael eu cynnwys o fewn y cynigion.

**Casgliad**

Bydd y safle yn arwain at golli 13.24% o unedau cynefin (11.93 uned)

Mae’r cynigion yn disgyn yn fyr o 10% o enillion yn sgil colled gyffredinol o unedau cynefin. Felly bydd y cynigion yn ceisio darparu digon o unedau cynefin oddi ar y safle ar dir sy’n eiddo i  Adran Amgylcheddol CSFf er mwyn dangos yr Enillion Net Bioamrywiaeth gofynnol.